**6.1** **Ceisiadau'n Economaidd** **Economic Applications**

Rhif y Cais: **19C1046A/EIA/ECON** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Conygar Stenaline Ltd**
**c/o Mr David Jones**
**Axis Ped Ltd**
**Camellia House**
**76 Water Lane**
**Wilmslow**
**Cheshire**
**SK9 5BB**

Cais amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg gyda marina newydd, eiddo preswyl, gwesty, defnyddiau masnachol a hamdden ac adwerthu ynghyd â gwaith cysylltiol i adennill tir ac isadeiledd gwasanaethu yn

Outline application for a mixed-use development consisting of a new marina, residential properties, a hotel, commercial, leisure and retail uses together with associated land reclamation and service infrastructure at

Holyhead Waterfornt, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 02/05/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DFJ)**

**Argymhelliad:**

Gohirio

**Y sefyllfa ar hyn o bryd**

Fe adroddwyd ar y cais hwn i'r pwyllgor ar 4 Ionawr gydag argymhelliad y dylid cynnal ymweliad safle i ddisgwyl am i wybodaeth ychwanegol gael ei chyflwyno'n fuan gan yr ymgeisydd.

Fe gynhaliwyd yr ymweliad safle ar 15 Ionawr ond ni chafwyd y wybodaeth ychwanegol tan 21 Chwefror. Yn dilyn dadansoddi'r wybodaeth ychwanegol fe gafwyd ymgynghori statudol a chyhoeddusrwydd pellach ar 13 a 15 Mawrth.

Daeth y cyfnod ymgynghori statudol i ben ar 3 Ebrill a'r cyfnod o gyhoeddusrwydd statudol ar 13 Ebrill.

Fodd bynnag, fe fethodd nifer o ymgynghorwyr allweddol ag ymateb o fewn y cyfnod amser hwn, yn fwyaf arbennig yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd y Cyngor Sir a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn (18 Ebrill) roedd ateb wedi'i dderbyn gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dweud nad oedd nifer o faterion allweddol wedi cael sylw a hefyd lythyr wedi hynny gan yr ymgeisydd yn gwadu'r honiadau hynny. Mae'r materion hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi nodi bod nifer o faterion yn parhau heb gael sylw ac mae wedi gofyn am estyniad yn yr amser hyd 4 Mai er mwyn gallu ymateb yn llawn.

O ystyried natur allweddol y materion sydd ar ôl heb eu trafod nid ydym yn credu y gellir cyflwyno adroddiad llawn i'r pwyllgor iddo allu gwneud penderfyniad ar hyn o bryd. Yn amodol ar ddatrys y materion hyn yn foddhaol, gobeithir y gellir trafod y mater yn y cyfarfod nesaf ar 6 Mehefin.

Mae'r ymgeiswyr wedi cytuno i ymestyn yr amser sydd gan yr awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad ar y cais, sef hyd 8 Mehefin.

**Argymhelliad:**

Gohirio